# Lluoswch: Rhifedd – Mesurau (Rhan Amser: eDdysgu)

Erbyn diwedd y wers hon byddwch yn deall beth yw mesurau cyfansawdd a sut i adnabod, cyfrifo a throsi mesurau cyfansawdd gan ddefnyddio ffactorau trosi.

Mae mesur yn helpu i ddisgrifio ein byd gan ddefnyddio rhifau. Rydym yn defnyddio rhifau i ddisgrifio pethau syml fel hyd, pwysau a thymheredd, ond hefyd pethau cymhleth fel gwasgedd, cyflymder a disgleirdeb. Mae dealltwriaeth o sut rydym yn cysylltu rhifau â'r ffenomenau hynny, bod yn gyfarwydd ag unedau mesur cyffredin fel modfeddi, litrau, a milltiroedd yr awr, a gwybodaeth ymarferol o offer a thechnegau mesur yn hanfodol i ddealltwriaeth myfyrwyr o'r byd o'u cwmpas. Yn y wers hon ymdrinnir ag amrywiaeth o destunau i helpu dysgwyr i ddeall pwnc mesurau yn well. Mae'r pynciau a drafodir yn cynnwys mesurau cyfansawdd, pellter, cyflymder, amser a gweithio gyda chrynodiad.

Bydd ymdrin â'r testunau hyn yn galluogi'r dysgwr i ddysgu sut i adnabod a chyfrifo gyda mesurau cyfansawdd. Trosi unedau mesur rhwng systemau gan ddefnyddio ffactorau trosi priodol. Yn ogystal ag amcangyfrif mesuriadau trwy ddarllen rhwng rhaniadau wedi'u marcio ar raddfeydd. Mae defnyddio senarios i ailadrodd pob testun dan sylw yn rhoi gwybodaeth i ddysgwyr allu adnabod, cyfrifo a throsi mesurau cyfansawdd gan ddefnyddio ffactorau trosi. Ar ddiwedd y wers hon mae asesiad byr i helpu atgyfnerthu ymhellach ddealltwriaeth a gwybodaeth y dysgwr.

## Gofynion Mynediad

Dim

## Rhagolygon Gyrfa

Ar ddiwedd y cwrs byddwch yn cael tystysgrif coleg yn cadarnhau eich bod wedi cyflawni'r modiwl - bydd hefyd yn gwella eich gallu mewn rhifedd ac yn cefnogi datblygu sgiliau ar gyfer byd gwaith.

## Modiwlau'r cwrs

Dysgwch sut i adnabod a chyfrifo gyda mesurau cyfansawdd.
Trosi unedau mesur rhwng systemau gan ddefnyddio ffactorau trosi priodol.
Amcangyfrif mesuriadau trwy ddarllen rhwng rhaniadau wedi'u marcio ar raddfeydd.

GRŴP COLEGAU NPTC GROUP OF COLLEGES
Datblygu Busnes
Business Development

Inspiring Learning,
Enriching Lives, Delivering Success

## Asesiad

Prawf ar-lein

### DULL ASTUDIO

PT

### LLEOLIAD

### HYD Y CWRS

1H